## Yng ngoleuni Duw

**Darllen Eseia 42:1–9; Salm 36:5–11; Hebreaid 9:11–15; Ioan 12:1–11**

**Gweddi**
Gad i ni syllu ar dy oleuni.
Gad i ni ddod i'th ŵydd.
Gad i ni dewi mewn parchedig ofn a rhyfeddod...

*Tawelwch*

Gad i ni syllu ar dy oleuni...

*Cynnau cannwyll*

Mae'r goleuni hwn yn datguddio:
dyfnder dy aberth,
ymroddiad dy Fab,
mwynder dy amddiffyn,
cryfder dy gariad.

Wrth i ni sylweddoli mawredd aberth Crist,
gwyddom fod ein hymateb yn annigonol,
ond rydym yn ymateb –
ymgrymwn gerbron dy oleuni a'th sancteiddrwydd,
gan lochesu yn dy nodded,
mewn cryndod yng ngrym dy gariad
wrth i ti ein galw
i weld goleuni – ac i fyw!
Amen.

***O Llawlyfr Gweddi 2004–2005***